

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL WRECSAM

ADRODDIAD BLYNYDDOL AELOD

Adroddiad yw hwn gan y Cynghorydd isod ynglŷn â'i brif weithgareddau yn ystod blwyddyn y Cyngor a ddaeth i ben fis Mawrth 2017. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw bwrpas arall.

Cyfarwyddiadau cwblhau

Mae Cynghorwyr yn rhydd i gynnwys cymaint neu gyn lleied o wybodaeth ag y dymunant ym mhob adran. Fodd bynnag, rhaid cadw'r adroddiad i fformat 2 dudalen (uchafswm).

Y Cynghorydd: Robert Walsh

Plaid: Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

Ward: Llai

Adran 1: Swyddogaeth a Chyfrifoldebau:

Rwy'n aelod o'r Pwyllgorau canlynol (darparwyd y ffigurau presenoldeb gan CBSW):

1. Cadeirydd - Pwyllgor Craffu Diogelu, Cymunedau a Lles
2. Pwyllgor Cynllunio
3. Y Cyngor Llawn
4. Aelod o Grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol
5. Partneriaeth Tenantiaid ac Aelodau Wreccsam
6. Cydbwyllgor Ymgynghorol Corfforaethol (Nad ydynt yn addysgu)
7. Panel Ymweliadau i Gartrefi Plant ar Rota
8. Panel Ymweliadau i Gartrefi Pobl Hŷn ar Rota
9. Panel Rhianta Corfforaethol
10. Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu

Rwy'n aelod o'r Pwyllgorau allanol canlynol (darparwyd y ffigurau presenoldeb gan y Cynghorydd):

1. Cyngor Cymuned Llai (Ward Parc Llai)
2. Cadeirydd y Llywodraethwyr Ysgol Uwchradd Darland
3. Llywodraethwr Ysgol Gynradd Parc, Llai Ysgol Gynradd Alexandra
4. Is-gadeirydd Pwyllgor Cyfeillion Dyfroedd Alun

Adran 2: Gweithgareddau Etholaeth:

1. Rwy'n cynhyrchu'r newyddlen chwarterol "Llay Focus" sy'n cael ei dosbarthu i'r holl breswylwyr gan eu hysbysu ynglŷn â'r newyddion diweddaraf.
2. Rwy'n gweithio'n ddyddiol i gynorthwyo preswylwyr gydag amrywiaeth o faterion, yn bennaf yn ymwneud â thai a'r amgylchedd.
3. Rwyf wedi defnyddio cyllideb amgylcheddol i ostwng cyrbau ar Ninth Avenue yn Llai.
4. Cynrychiolais breswylwyr yng ngwrandawriad Apêl Ffordd Gresffordd gyda'r Arolygiaeth Gynllunio Gymreig.
5. Rwyf wedi ymgyrchu'n gyhoeddus yn erbyn y gwasanaeth bws annigonol sydd ar gael i breswylwyr mewn rhai ardaloedd yn Llai.
6. Rwyf wedi ymgyrchu'n llwyddiannus i sicrhau bod Ffordd Newydd Llai yn cael ei hail-

wynebu.

7. Rwyf wedi ymgyrchu'n llwyddiannus i ostwng cyfyngiadau cyflymder ar ffyrdd gwledig Llai.
8. Rwyf wedi annog preswylwyr i arwyddo deiseb yn galw am barthau 20mya yn Llai.
9. Rwyf wedi ymgymryd ag archwiliadau o oleuadau stryd sydd wedi malu yn y ward, ac adrodd am y rhain i'r adran.
10. Codais bryderon y preswylwyr ynglŷn â Safle 'Foregolf' ar Barc Gwledig Dyfroedd Alun.
11. Rwy'n cyfarfod yn rheolaidd gyda Rheolwr Swyddfa Ystadau Gwersyllt a Chydlynnydd Strydwedd Llai i drafod pryderon lleol.
12. Rwy'n rhoi gwybod i breswylwyr am ddatblygiadau yn gysylltiedig â chais cynllunio mawr ar safle Lleng Brydeinig Frenhinol Llai.

Adran 3: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig:

1. Trefnais 2 ddigwyddiad codi sbwriel gyda Chadwch Gymru'n Daclus yng Nghoedwig Nant y Gaer.
2. Trefnais i droi cyn-safle Ysgol Fabanod Parc Llai yn faes parcio dros dro er mwyn lleihau traffig ar Ffordd yr Ysgol yn ystod adegau prysur.
3. Cysylltais gyda swyddogion tai i osod deunydd atal llithro y tu allan i fyngalos yr henoed.
4. Cysylltais yn agos â'r contractwr, Novus, sydd wedi gosod ceginau ac ystafelloedd ymolchi newydd i denantiaid y Cyngor yn Llai.
5. Rwyf wedi cynorthwyo grŵp o famau lleol â sicrhau eu bod yn derbyn cefnogaeth gan Gyngor Cymuned Llai i dacluso a phlannu yn y Gerddi.

Adran 4: Dysgu a Datblygu a Gwblhawyd:

1. Rwyf wedi mynychu sesiynau hyfforddi a ddarparwyd gan y cyngor ynghyd â gweithdai ynglŷn â nifer o destunau yn ystod y flwyddyn.
2. Rwyf wedi ymgymryd ag hyfforddiant Rheoli Perfformiad ar gyfer fy rôl fel Cadeirydd y Llywodraethwyr yn Ysgol Uwchradd Darland.
3. Rwyf wedi mynychu Academi Arweinyddiaeth CLILC ar gyfer Cyngorwyr yng Nghaerdydd (cynhaliwyd y sesiynau dros gyfnod o 6 diwrnod).

Adran 5: Gweithgareddau a Materion Eraill:

1. Rwy'n cyfarfod gyda fy nghyd-gynghorwyr o Grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol ddwywaith y mis.
2. Cadeirydd - Pwyllgor Craffu Diogelu, Cymunedau a Lles sydd wedi goruchwyllo materion megis "Sut i gael gwared ar hen nodwyddau'n ddiogel" a sydd hefyd wedi cwestiynu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar ddau achlysur.
3. Rwy'n cymryd rôl weithredol yn yr holl bwyllgorau yr wyf yn aelod ohonynt h.y. Cynllunio, Partneriaeth Tenantiaid ac Aelodau Wreccsam.
4. Rwy'n mynychu cyfarfodydd Bwrdd Gweithredol yn rheolaidd a gofyn cwestiynau i Aelodau Arweiniol.
5. Yn fy rôl fel Cadeirydd y Llywodraethwyr yn Ysgol Uwchradd Darland, rwyf yn goruchwyllo cyfarfod amcanion strategol yr ysgol gyda'r pennaeth yn rheolaidd.
6. Rwyf wedi mynychu cyfarfodydd Pwyllgorau Craffu (nad wyf yn aelod ohonynt) i gymryd rhan mewn eitemau testunol .
7. Rwyf wedi mynychu cyfarfod Panel Polisi Cynllunio i fynegi safbwyntiau/pryderon ynglŷn ag Aseiad Gofodau Agored ac Archwilio a'r Cynllun Datblygu Lleol.
8. Rwyf wedi ymweld â Chartref Plant Rhodfa Tapley, yn unol â'r amserlen ymweliadau.

9. Rwyf wedi ymweld â Chartref Park View, sef cartref i oedolion diamddiffyn, yn unol â'r amserlen ymweliadau.
10. Rwyf wedi mynychu seremonïau dinasyddiaeth ar gyfer preswylwyr Llai yn Neuadd y Dref.

Llofnod y Cynghorydd: *R. O. Walsh*

Dyddiad: *15/10/2017*

